

## Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cofiw'n am Glyn Jones (Nantglyn) yng Nghanolfan Walton, Lerpwl, a Trefor Wynne (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Howell Jones (Nantglyn) ac Ann Owen (Llanefydd), ond mae'n dda cael adrodd fod Beryl Jones (Nantglyn) ac Eluned Jones (Llanfair) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Cofiw'n yn dyner am eraill o'r ardal sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, a gweddiwn y bydd yn eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni. Yn yr un modd, diolchwn am ofal ac ymroddiad eu hanwyliaid a gweddiwn y bydd yn cysgodi drostynt hwythau.
- Llongyfarchiadau calonnog i Huw a Manon Davies (Peniel) ar enedigaeth merch fach, Ethni Glwys, chwaer i Mabli a Boas.

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. Cynhelir y Sasiwn yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug eleni, a hynny ar ddydd Mawrth, Mai 7fed.

## I ddod

- **Adnabod DAWN:** Sesiynau nesaf - Chwefror 26ain, Mawrth 12fed.
- Bydd y cyfarfod nesaf ar gyfer **Chwiorydd Eglwysi Bro Aled** ar Nos Fawrth, Mawrth 12fed, ac mae trefniadau ar y gweill i fynd i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Mae manylion y siaradwyr a sut mae archebu lle ar y wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org).
- Bydd yr ail gyfarfod i drefnu **Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog Ebrill 18fed am 6.00. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos Iau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17<sup>eg</sup> Chwefror 2013

Darlleniad y Dydd

Mathew 21: 12-17

(BCND tud.25 / BCN: tud.23)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Croeso cynnes iawn i chi i'n hoedfaon heddiw. Gobeithio i chi gael wythnos fendithiol ers i ni gyfarfod ddiwethaf, ac i bawb ohonom brofi'r Arglwydd yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder. (Salm 46)

Y stori fawr yn y newyddion yr wythnos hon yw'r darganfyddiadau ynglŷn â chig ceffyl mewn gwahanol fwydydd oedd yn honni cynnwys cig eidion. Wrth i fwy a mwy o gwmnïau gyhoeddi rhybuddion a thynnu bwydydd amheus oddi ar eu silffoedd, mae llawer hefyd yn galw am newid sylfaenol yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'r holl system o reolau sydd wedi arwain at y fath dwyll. Dyna sy'n tueddu i ddigwydd pan mae'n dod yn amlwg nad yw system o reolau'n gwneud y gwaith y dylai ei gwneud – galw croch am drefn newydd well. Rhaid cael ffordd ragorach i wneud yn siŵr fod pethau'n newid er gwell. Ac mewn ffordd, dyna sydd i'w weld yn ein darlleniad heddiw wrth i Iesu lanhau'r deml. Wrth iddo geryddu'r masnachwyr a'r prynwyr mae'n dangos yn glir nad oedd yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn addas, ac nad oedd ffordd yr oedd addoliad yn y deml wedi datblygu yn llwyddo i ddod a phobl i wir berthynas â'r Duw byw.

Wrth i'r Arglwydd Iesu wylltio'r awdurdodau crefyddol mae'n dangos i ni mai Ef ei hun yw'r ffordd at Dduw, a thrwyddo Ef yn unig y gallwn brofi gwir addoliad. Wrth i Iesu iachau cleifion, rhoi golwg i'r deillion a derbyn mawl plant, gwelir yn amlwg mai Ef yw'r Un sy'n dod â chychwyn newydd i bobl o bob math, hyd yn oed rhai oedd yn cael eu heithrio fel arfer. Ac fel y rhoddodd Iesu arwydd clir o gychwyn newydd yn y deml, mae'n ein gwahodd ninnau hefyd i brofi cychwyn newydd trwyddo Ef yn ein bywydau ninnau. Wrth dderbyn gwahoddiad Iesu i ddod ato, cawn gyfle i dderbyn maddeuant, diogelwch a gobaith tragwyddol, lle nad yw euogrwydd, ofnau na methiannau'r gorffennol i'n rheoli bellach. Y gobaith gydag unrhyw gychwyn neu system newydd yw y bydd pethau yn dra gwahanol i'r gorffennol. Wrth i ni ddod at Iesu bydd hynny'n wir oherwydd trwy ei fuddugoliaeth fendigedig ar y Groes trechodd ein gelynyon pennaf. Gyda hynny, cofiw'n am Ei addewid i fod gyda'i ddisgyblion am byth, ac y byddent yn derbyn nerth ac arweiniad yr Ysbryd Glân i'w cynorthwyo ym mhob sefyllfa. Diolchwn felly am Arglwydd sy'n cadw at ei addewid ac sy'n cynnig cychwyn newydd a bywyd ar ei orau i'w blant. (Ioan 10:10 Beibl.net)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Oedfa yn cael ei harwain gan Aneurin a Rhodri fydd hon i gloi a chrynhoi y gyfres ddiwethaf ar 'Weddi' ac i wneud unrhyw sylwadau perthnasol neu i holi cwestiynau sy'n ymwneud â gweddi. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.  
• **Penwythnos Aduniad Souled Out (15-21 oed)** yng Ngholeg y Bala – nos Wener tan ddydd Sul.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin neu Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Neuadd Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth Bydd Chwiorydd, Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y ceir cwis dan ofal Mr Stan Lyall, Dinbych.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron ac ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Mawrth Bydd Chwiorydd, Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y ceir cwis dan ofal Mr Stan Lyall, Dinbych.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Gwener Bydd noson "Llan s'gan Dalent" a drefnwyd gan y Gymdeithas yn y Neuadd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Edwards yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghysbys Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan nos Wener, Mawrth 1af am 7.00 yn y Festri. Enwau i Ann Morris (870623) neu Rhiannon Evans (870525), os gwelwch yn dda.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth Bydd Chwiorydd, Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y ceir cwis dan ofal Mr Stan Lyall, Dinbych.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Iau Bydd Cymdeithas Capel Cefn Berain yn cynnal noson o ddramau hwyliog gyda Chwmni Drama Uwchaled yn Neuadd Llanefydd am 7.30. Oedolion £5, Plant £1. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd i'r daith heddiw. Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 a Sioned Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.